

Chwaraeon RhCT

Astudiaeth Achos

Rhaglen 'UEFA Playmakers' - Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen

Mae'r fenter yma, sydd wedi'i chreu gan UEFA a Disney, yn ysbrydoli rhagor o ferched i ddarganfod yr hwyl sydd i'w chael wrth chwarae pêl-droed a gwneud ymarfer corff. Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio ar gyfer merched 5-8 oed, fel cyflwyniad i bêl-droed, gan sicrhau amgylchedd sy'n canolbwyntio ar fwynhad, cyfeillgarwch, a phêl-droed. Mae'r sesiynau'n cymysgu gweithgareddau pêl-droed hwylus â straeon Disney. Cymdeithas Bêl-droed Cymru sy'n arwain y rhaglen yng Nghymru. Cawsom gyfle i weithio gyda nifer fach o ysgolion cynradd wrth arwain y rhaglen am y tro cyntaf. Mynegodd Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen ddiddordeb a gofynnon nhw i gymryd rhan. Roedden ni wedi'u cefnogi nhw wrth iddyn nhw ddechrau clwb allgyrsiol 'Playmaker'.

Gwnaeth un o athrawon yr ysgol gwblhau hyfforddiant 'Disney Playmakers' gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru. Wedi'r hyfforddiant, cawsom nhw ganllaw hyfforddi ac adnoddau er mwyn dechrau arwain sesiynau yn yr ysgol. Mae'r canllaw hyfforddi'n cynnwys penodau o straeon sydd wedi'u seilio ar ffilm adnabyddus Disney. Mae'r gweithgareddau'n cyfeirio at y stori. Mae pob sesiwn yn dod i ben gan adeiladu tensiwn a chyffro, gan baratoi ar gyfer dechrau'r sesiwn nesaf. Mae pob merch sy'n cymryd rhan yn derbyn pasbort antur, er mwyn iddyn nhw rannu ac esbonio gweithgareddau'r ysgol gyda'u teuluoedd yn y cartref. Mae tasgau yn y pasbort antur i gyflawni yn y tŷ gyda'u ffrindiau a'u teuluoedd.

Dechreuodd y sesiynau ym mis Mai ac mae 27 o ferched wedi cymryd rhan hyd yn hyn. Ar gyfartaledd, mae 20 o ferched yn cymryd rhan yn wythnosol. Mae rhan fwyaf o'r merched yn rhoi cynnig ar bêl-droed am y tro cyntaf. Mae 3 merch wedi chwarae pêl-droed i glwb yn flaenorol. Mae'r merched wedi rhoi adborth cadarnhaol iawn. Roedden nhw wedi mwynhau gweithio gydag eraill, dysgu sgiliau newydd, a rhoi cynnig ar gamp newydd. Roedd yr athro/athrawes wrth eu bodd â'r canllaw hyfforddi ac o'r farn bod y rhaglen yn ffordd wych o gael merched i gymryd rhan mewn chwaraeon:

Pan welais hysbyseb 'Disney Playmakers', roeddwn i'n teimlo ei fod yn gyfle euraidd i ferched ein hysgol gymryd rhan mewn rhywfaint o weithgarwch corfforol. Ces i brofiadau negyddol iawn yn ymwneud â chwaraeon pan oeddwn i yn yr ysgol. Doeddwn i ddim yn gwybod unrhyw beth am bêl-droed. Mae'n hynod o bwysig bod plant yn dangos agwedd gadarnhaol wrth gael blas ar unrhyw beth. Teimlaf fod yr adnodd yn ffordd dda o gyflwyno chwaraeon i blant gan ei fod mor hwyllog.



27
merch



95%
nawr yn teimlo'n
fwy egniol, yn
amlach



95%
yn bwriadu parhau
i fyw'n heini



91%
yn teimlo'n
iachach



100%
yn teimlo'n
fwy hyderus



100%
yn teimlo'n
hapusach



100%
wedi gwneud
ffrindiau newydd



RHONDDA CYNON TAF